*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 62(6) o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

# 2024 Rhif (Cy. )

# DATGELU GWYBODAETH

# Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 5 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 ("y Ddeddf") yn caniatáu i bersonau penodedig a restrir yn yr Atodlenni i'r Ddeddf rannu gwybodaeth at ddibenion penodol. Mae adran 56(1) o'r Ddeddf yn caniatáu i berson penodedig rannu gwybodaeth â phersonau penodol eraill at ddibenion atal twyll yn erbyn awdurdodau cyhoeddus. Mae Rhan 2 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cynnwys rhestr o gyrff Cymreig a bennir at ddibenion adran 56(1). Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o'r rhestr honno ac yn rhoi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ei le.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 62(6) o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2024 Rhif (Cy. )

# DATGELU GWYBODAETH

## Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 56(6) o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017(**1**) ("y Ddeddf").

Yn unol ag adran 56(11) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i'r systemau a'r gweithdrefnau ar gyfer trin gwybodaeth yn ddiogel gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ac a yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi rhoi sylw i'r cod ymarfer o dan adran 60 o'r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth, Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, Gweinidogion yr Alban, Adran Gyllid Gogledd Iwerddon, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol, fel sy'n ofynnol gan adran 56(12) o'r Ddeddf.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 62(6) o'r Ddeddf(**2**), ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) 2017 p. 30. Gweler adran 63(1) a (3) am y diffiniad o "appropriate national authority".

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 62(6) o'r Ddeddf at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2024.

### Diwygiad i Ran 2 (cyrff Cymreig) o Atodlen 8 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017

**2.** Ym mharagraff 49 o Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017, yn lle "The Higher Education Funding Council for Wales", rhodder "The Commission for Tertiary Education and Research".

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad